# *CV y Cyfryngau*

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar greu CV lefel mynediad a ystyrir yn briodol yn niwydiant y cyfryngau, yn enwedig cynhyrchu ffilm a theledu. Yn ddelfrydol, dylai eich CV fod yn un ochr A4, ond gall fod hyd at ddwy ochr A4.

Mwy na thebyg scan cyflym o'ch CV fydd y man cychwyn gan weithwyr cyfryngau proffesiynol o fewn y diwydiannau creadigol, am y rheswm syml y byddant yn edrych ar nifer fawr o CVau eu hunain, yn hytrach na rhywun o'r adran Adnoddau Dynol. Dyna pam ei bod yn bwysig iawn i chi wneud eich CV yn glir ac yn gryno gan ddefnyddio iaith weithredol i hoelio sylw'r darllenydd.

Dylai eich CV ddangos:

**Tystiolaeth o'r sgiliau perthnasol** – er enghraifft, os ydych chi'n gwneud cais am swydd rhedwr, bydd angen i chi ddangos bod gennych y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl honno.

**Profiad perthnasol** – gallai hyn gynnwys profiad gwaith blaenorol, cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel cynyrchiadau amatur a grwpiau cymdeithasol perthnasol.

**Brwdfrydedd/Ymroddiad** - i weithio yn y rôl neu'r adran dan sylw, gan ddangos sut rydych wedi bwrw ati i ddatblygu profiadau nad oedd yn hawdd eu cael.

## Beth arall dylid ei gynnwys?

**Manylion personol**
- Enw
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- E-bost
- Cyfeiriad gwefan neu URL tapiau arddangos /portffolio ar-lein
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol proffesiynol/LinkedIn

**Sgiliau allweddol**
- Cyfarpar e.e. gweithredu bŵm, meicroffonau stiwdio
- Meddalwedd e.e. Photoshop, Avid Pro, HTML
- Ieithoedd
- Trwydded Yrru
- Cymorth cyntaf a/neu iechyd a diogelwch

**Profiad o weithio ar gynyrchiadau**
- Cynhyrchiad, swydd a dyddiad

**Profiad perthnasol**
- Cwmni, swydd a dyddiad

**Profiad pellach**
- Swydd, cwmni a dyddiad

**Addysg**
- Gradd
- Safon Uwch

# JOHN JONES

2 Lôn Coed Ceirios, Aberystwyth SY23 3DA

07856 4579

johnjones@abba.aber.ac.uk www.yjohnjonesy.com linkedin.com/in/john-jones

**Sgiliau allweddol**

- Datblygu gwybodaeth o ddefnyddio Avid a Final Cut
- Profiad o weithio mewn stiwdios â chyfarpar proffesiynol, gan ddysgu cysyniadau allweddol a thechnegau cynhyrchu cyfryngau yn gyflym
- Sgiliau canolraddol wrth ddefnyddio Photoshop a HTML
- Perchennog car, gyda thrwydded yrru lân a llawn
- Swyddog cymorth cyntaf sylfaenol cymwysedig
- Defnyddiwr cymwys o holl becynnau Microsoft a gwybodaeth am feddalwedd MAC
- Sgiliau ardderchog wrth ymdrin â phobl, a ddangosir trwy weithio gydag amrywiaeth o bobl, ac yn gallu sefydlu perthynas waith gadarnhaol ag eraill yn gyflym

**Profiad o weithio ar Gynyrchiadau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynhyrchu Cyfryngau Arbrofol, Haniaethol | Cyfarwyddwr | 2020 |
| A Day in Life, Cynhyrchu Ffilm Ffuglen | Golygydd | 2019 |
| Ted Talks, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth | Gweithredydd Camera | 2019 |

**Profiad Gwaith Perthnasol**

Y Gwyll, Fiction Factory - Rhedwr dydd (lleoliad gwaith am ddau fis) 2019

**Profiad Pellach**

| | | |
|---|---|---|
| Gwesty a Bar Awel y Môr | Gweinydd | 2018 - 2020 |
| Radio Bronglais (radio ysbyty) | Cyflwynydd | 2019 |

**Addysg**

BA Astudiaethau Ffilm a Theledu - Prifysgol Aberystwyth 2018 - 2020

Safon Uwch: Saesneg (A) Astudiaethau Cyfryngau (A) Celf (B)

Ysgol Uwchradd Cawdon 2016 - 2018

***Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR): Gellir cadw'r CV hwn ar ffeil i'w rannu at ddibenion cyflogaeth***